Llŷn
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhif 14 • 2020

www.ahne-llyn-aonb.org

# Llygad Llŷn

Newyddlen AHNE Llŷn

*Yn y rhifyn hwn*

**Clirio Safleoedd Hanesyddol**

**Hyfforddiant Sgiliau Gwledig**

**Hanes Melinoedd Llŷn**

**Trin Planhigion Estron**

**Crwydro Trefor**









ardal arbennig

# CROESO

**Croeso i rifyn diweddaraf o Llygad Llŷn – sef newyddlen flynyddol ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Mae'r newyddlen hon yn darparu gwybodaeth am yr ardal sydd wedi ei dynodi yn un o dirluniau gwarchodedig Cymru ers 1957.**

Er fod y misoedd diwethaf yn sgil y pandemig wedi bod yn gyfnod anodd a heriol i bawb – mae prosiectau diddorol wedi bod yn digwydd a chydweithio ymysg nifer o wasanaethau ac asiantaethau i gynnal a gwarchod holl nodweddion arbennig yr ardal. Mae gwybodaeth yn y rhifyn hwn am y prosiectau hynny yn ogystal â chrynodeb o rai prosiectau sydd wedi elwa o gefnogaeth y Gronfa Datblygu Cynaliadwy sef cronfa grant gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi prosiectau cynaliadwy yn y pum AHNE yng Nghymru ers 2001.

Rydym yn awyddus iawn i glywed eich adborth am Llygad Llŷn, ac yn croesawu eich adborth am waith y tîm. Rydym hefyd yn croesawu syniadau am brosiectau newydd a chyfle i gydweithio. Cysylltwch ar bob cyfri!

*Cyhoeddwyd gan*
Wasanaeth AHNE Llŷn

*Argraffwyd gan*
Wasg Carreg Gwalch, Llwyndyrys a Llanrwst

*Lluniau gan*
Gareth Jenkins
(oni nodir yn wahanol)

*Llun clawr*
Yr Eifl o Forfa Nefyn, Mark Curry

## CYNNWYS

Map ..... 3
Gwella Amgylchedd yr AHNE ..... 4-6
Hyfforddiant Sgiliau Gwledig ..... 7
Trin Planhigion Estron Ymledol ..... 8
Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ..... 9
Crwydro Trefor ..... 10
Hanes Melinoedd Llŷn ..... 12
Plas Glyn y Weddw ..... 14
Ynys Enlli a Nant Gwrtheyrn ..... 15
Capel Newydd Nanhoron ..... 16

## MWY O WYBODAETH

Am fwy o wybodaeth am ardaloedd eraill drwy Brydain sydd wedi eu dynodi yn AHNE, ewch i wefan y Gymdeithas Genedlaethol – www.landscapesforlife.org.uk

## MANYLION CYSWLLT

AHNE Llŷn
Gwasanaeth Cefn Gwlad
Adran Amgylchedd
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

**Ffôn** 01758 704 155 | 01758 704 176

**E-bost** ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

**Gwefan** www.ahne-llyn-aonb.org

Dilynwch ni ar Instagram!
@ahnellynaonb

## TÎM AHNE LLŶN – Mae dau aelod o staff yn gweithio yn y Gwasanaeth:

**Bleddyn Prys Jones**
*Swyddog AHNE Llŷn*
Fel Swyddog AHNE Llŷn mae Bleddyn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar weithgareddau creiddiol yr AHNE, materion cenedlaethol, a'r gwaith o baratoi a gweithredu'r Cynllun Rheoli.

**Elin Wyn Hughes**
*Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn*
Fel Swyddog Prosiectau mae Elin yn arwain ar brosiectau yn deillio o'r Cynllun Rheoli ac yn gweinyddu grant y Gronfa Datblygu Cynliadwy. Hefyd, bydd yn trefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth am AHNE Llŷn a chynorthwyo i ddiweddaru'r Cynllun Rheoli.





map AHNE Llŷn



# Gwella Amgylchedd yr AHNE

**Mae'r Gwasanaeth AHNE, ein cydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd, ein partneriaid a gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur dros y misoedd diwethaf yn cwblhau sawl prosiect yn llwyddiannus. Mae'r prosiectau dan sylw wedi amrywio yn fawr. Bu gwaith cynnal a chadw ar safleoedd hanesyddol pwysig a gwella mynediad tuag atynt, bu ymrafael â phlanhigyn ymledol ar Afon Soch a chynhaliwyd cyfres o hyfforddiant sgiliau gwledig.**


## Gweithio mewn Partneriaeth

Ar y cyd â Cadwch Gymru'n Daclus, rydym wedi bod yn cynnal sesiynau clirio er mwyn gwella amgylchedd yr AHNE. Mae rhai o'r safleoedd hyn o ddiddordeb hanesyddol ac eraill yng nghanol pentrefi.

Mae gwirfoddolwyr wedi ymuno yn y prosiectau – cyfle gwych i ddatblygu sgiliau a chreu rhwydweithiau newydd – ac mae treulio amser yn yr awyr agored yn llesol iawn i'r enaid!

### Safleoedd Hanesyddol

Bob dydd Gwener yn ystod y gaeaf, buom yn gweithio ar rai o ffynhonnau'r ardal megis Ffynnon Fyw a Ffynnon Arian, y ddwy ym Mynytho – a Ffynnon Saint yn Aberdaron hefyd. Mae Ffynnon Saint yn safle newydd i ni o ran gwaith yr Uned AHNE, heb erioed gynnal gwaith clirio yno o'r blaen. Mae'n ffynnon ddiddorol iawn – ac o bwys eithriadol yn hanesyddol. Mae ei henw a'i lleoliad yn awgrymu ei bod yn gysylltiedig â Cristnogaeth gynnar yn Llŷn – a buasai wedi bod yn sicr ar unrhyw lwybr o bererindod i Enlli. Dywedir fod Ann Griffiths, Meddyges Bryn Canaid yn defnyddio'r ffynnon hon hefyd ar gyfer ei meddyginiaethu (ceir ei hanes yn llyfr Dr Emyr Wyn Jones, Lloffa yn Llŷn).














Rydym yn croesawu unrhyw un i ymuno â ni i warchod safleoedd diddorol iawn yn Llŷn sydd yn drysorau i'w cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.










### Trefor



Buom yn clirio hefyd ar safle y Pin Dŵr ym mhentref Trefor. Yn ogystal â bod o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae canol pentref Trefor hefyd wedi ei ddynodi yn Ardal Gadwraeth – gyda chymeriad unigryw i'w strydoedd bach diddorol. Adeiladwyd y strydoedd hyn yn ystod ail hanner yr 19fed Ganrif - yn dilyn agoriad Chwarel yr Eifl yn 1850. Yn ei hanterth – hon oedd chwarel ithfaen fwya'r byd!

Fel rhan o'r prosiect yn Nhrefor – cliriwyd llawer o sbwriel ger y safle bws a gosodwyd bin newydd. Casglwyd sbwriel o'r afon hefyd – sbwriel oedd heb os am gael ei gario lawr i'r traeth gyda'r llif.

Dyma Daniel Griffith o Cadwch Gymru'n Daclus sydd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda ni ar yr holl brosiectau uchod. Edrychwn ymlaen i barhau i weithio ar safleoedd newydd – gobeithio yn y dyfodol agos.

gwella amgylchedd yr AHNE

# Eglwys Carnguwch

Bu gwelliant hefyd yng Ngharnguwch, i safle hanesyddol arbennig a'r llwybrau cyhoeddus o'i chwmpas. Saif Eglwys Carnguwch, sydd wedi ei chysegru i Feuno Sant, ar droed Mynydd Carnguwch yn ardal Llithfaen. Saif mewn llecyn tawel, gwledig uwch llechwedd serth sy'n disgyn at lannau afon Erch. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod giatiau newydd a gosod arwyddion. Bu barbio yn y fynwent hefyd a thocio coed. Roedd cydweithrediad parod y tirfeddiannwr a Chyfeillion yr Eglwys yn allweddol i'r prosiect ac mae wastad yn braf cydweithio gyda chymunedau lleol i sicrhau prosiectau gwerth chweil.









# Wal Llithfaen

Gydag arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gwelwyd gwelliannau ar wal derfyn sy'n mynd gyda'r lôn o bentref Llithfaen i gyfeiriad tai Cae'r Nant a Nant Gwrtheyrn.

Dros y blynyddoedd mae cyflwr bregus y wal wedi dirywio'n arw gyda cherrig yn dymchwel i'r lôn. Cafodd wal ei hali-godi yn daclus – gyda'r gwaith cerrig cywrain wedi gwneud gwahaniaeth trawiadol iawn i'r tirlun. Roedd sawl partner allweddol yn rhan o lwyddiant y prosiect hwn ynghyd ag AHNE Llŷn; gydag Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (www.ygc.cymru) ac Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd yn cyfrannu a chyd-lynu'r gwaith. Roedd cydweithrediad y tir-feddiannwr yn allweddol hefyd yn ogystal â chefnogaeth Canolfan Nant Gwrtheyrn.









hyfforddiant sgiliau gwledig



# Hyfforddiant Sgiliau Gwledig

**Byddwn yn flynyddol yn cynnal cyrsiau i feithrin sgiliau o godi neu adfer waliau cerrig sychion a chloddiau'r ardal. Dyma strwythurau hanesyddol pwysig – sy'n rhan annatod o dirlun arbennig yr ardal. Maent hefyd yn ddiddorol o ran cysylltiad â chanrifoedd o amaethyddiaeth ac fel cynefin bywyd gwyllt.**

Cynhaliwyd cwrs codi waliau cerrig sychion ar lethrau'r Eifl yn ystod Medi 2019 mewn partneriaeth â Choleg Glynllifon. John Till oedd yr hyfforddwr – a'r lleoliad oedd y Wal Fawr yn Llithfaen. Dyma wal a godwyd tua 1815 adeg y ddeddf amgáu tiroedd comin – mae'n debyg gan filwyr oedd wedi dychwelyd o frwydr Waterloo.

Cynhaliwyd yr hyfforddiant codi cloddiau ar fferm Porth Gwylan yn Nhudweiliog gyda Dilwyn Williams wrth y llyw – mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sydd yn berchen ar y fferm. Mae fferm Porth Gwylan uwchlaw llecyn o draeth hyfryd o'r un enw – sy'n hafan i bob math o fywyd gwyllt.

Rydym yn ddiolchgar iawn bawb am sicrhau llwyddiant ein rhaglen hyfforddiant – yn arbennig i'r hyfforddwyr am eu hamser ac i'r tirfeddianwyr am bob cydweithrediad. Diolch hefyd wrth gwrs i'r rhai a gymerodd ran am eu diddordeb a'u dyfal barhad! Mae'n anhebygol y gellir cynnal cyrsiau yn 2020 dan yr amgylchiadau ond gyda gobaith byddwn yn ail-afael ynddi yn 2021. Cofrestrwch eich diddordeb dros y ffôn neu e-bost: 01758 704 176 / ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru









trin planhigion estron

# Trin Planhigion Estron Ymledol



**Mae ein gwaith o godi ymwybyddiaeth am blanhigion estron ymledol yn parhau – a thrin ambell safle ble mae'r planhigion hyn wedi gafael.**


**Efwr Enfawr**
Rydym yn parhau i gydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i drin Efwr Enfawr yn ardal Llandegwning. Mae'r planhigyn hwn (sy'n gallu tyfu yn wirioneddol enfawr!) wedi gafael ar lannau Afon Soch ac yn achosi risg i ecosystem yr afon. Yn ogystal ag effeithio ar yr amgylchedd – mae'r planhigyn hwn hefyd yn gallu bod yn niweidiol i'ch iechyd os bydd ei sudd yn cyffwrdd â'ch croen.

**Llysiau'r Dial**
Rydym hefyd yn cydweithio gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd (www.ygc.cymru) yn barhaus i drin Llysiau'r Dial (Fallopia japonica) ar ddau safle – sef ardal y traeth yn Nhrefor ac yn Mryn Mynach, Nefyn.

Mae Llysiau'r Dial yn gawr ymysg planhigion ymledol. Enw arall arno yw Canclwm Siapaneaidd, Clymog Siapan a Llysiau'r Cythraul. Mae'n frodorol i Siapan, Taiwan, a gogledd Tsieina – ond yn gyffredin ym Mhrydain ers ei gyflwyno fel planhigyn gardd yn ystod yr 19fed Ganrif. Mae i'w weld mewn ardaloedd trefol, yn enwedig ar dir gwastraff, rheilffyrdd, ochrau ffyrdd a glannau afonydd.

Mae Llysiau'r Dial yn sathru ac yn disodli planhigion brodorol ac hefyd yn gallu achosi difrod economaidd difrifol. Mae ei system wreiddio yn blocio ffosydd a draeniau, ac mae'r blagur yn ddigon cryf i dreiddio trwy darmac ac achosi difrod strwythurol i adeiladau.





**Gwybodaeth Ddefnyddiol**

- Gallwch dderbyn fwy o wybodaeth am blanhigion ymledol yng Nghymru, sut i'w hadnabod a chyngor defnyddiol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru – **www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
- Yn ogystal – ceir gwybodaeth ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – sydd hefyd yn cynnal amrywiol brosiectau i daclo gwahanol blanhigion ymledol – **www.eryri.llyw.cymru**



y gronfa datblygu cynaliadwy

# Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Gronfa grant hon gan Lywodraeth Cymru mewn bodolaeth ers 2001 – ac ar gael i gefnogi prosiectau cynaliadwy yn y pump Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru. Yma yn Llŷn, mae amryw o brosiectau wedi eu cefnogi – sydd wedi dod â budd i gymunedau yn amgylcheddol, yn economaidd, yn gymdeithasol a diwylliannol.

Mae enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus i'w cael isod – ac yn cynnig blas i chi ar pa fath o brosiectau a ariennir.

| | |
|---|---|
| Bws Arfordir Llŷn | (£22,083.00) |
| Prosiect Hafod Ceiri, Llithfaen | (£5,300) |
| Gwelliannau Safle Capel Peniel, Ceidio | (£4,000) |
| Gwelliannau Safle Eglwys Llandegwning | (£2,000) |
| Amgueddfa Forwrol Nefyn | (£5,600) |
| Tafarn yr Heliwr, Nefyn | (£11,500) |
| Gwelliannau i Wal a Mynwent Eglwys Clynnog | (£6,000) |
| Prosiect Plas Carmel | (£13,700) |
| Cynllun Adnewyddu Neuadd Mynytho | (£1,240) |
| Gwyl Fwyd Pwllheli | (£6,000) |
| Be' Nawn Ni Heddiw? | (£1,000) |
| Taith Tridiau Llŷn | (£3,800) |
| Gwelliannau Safle Eglwys Newydd, Aberdaron | (£8,000) |
| Cae Chwarae Edern | (£13,700) |
| Prosiect Archeolegol Meillionydd | (£2,990) |

Mae'r Gronfa yn agored ar gyfer 2020/21, felly os oes gennych chi syniad am brosiect ac awydd sgwrs bellach, cysylltwch â ni ar **ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru**


















# Crwydro Trefor

## Teithiau Cerdded

**Bob blwyddyn, bydd gan AHNE Llŷn gyfres o deithiau tywys i godi ymwybyddiaeth am yr holl nodweddion sy'n gwneud yr ardal hon mor arbennig. Wrth gwrs – mae'r teithiau hyn hefyd yn gyfle llesol i bobl fwynhau'r awyr iach a chymdeithasu mewn awyrgylch hwyliog.**

**Dyma flas ar daith a gynhaliwyd yn Nhrefor – ar y cyd â Chymdeithas Ted Breeze Jones. Twm Elias sy'n adrodd yr hanes ...**

Yr oedd y daith yn ddwy ran; Coed Elernion a Chlogwyn y Morfa. Parcio a chyfarfod ar y rhan o'r hen ffordd wrth y lôn newydd ym Mhen Lôn Trefor, a cherdded yn fintai i lawr at y fynedfa i Goed Elernion. Ond cyn cychwyn fedrwn ni ddim peidio rhyfeddu at borffor hyfryd y bwtshars y gog neu glychau gleision oedd yn harddu llethrau Gyrn Ddu wrth ein hymyl uwchlaw'r ffordd i un cyfeiriad ac ar lethrau'r Eifl y tu draw i'r coed i'r cyfeiriad arall.

Roedd yr adar yn ei morio hi, yn gôr cymysg o'n brodorion megis titws, ji-binc, deryn du, dryw, robinod a bronfraith, a hefyd rhai o'r ymfudwyr, er enghraifft sawl telor penddu a thelor yr helyg.

Roedd amrywiaeth o flodau a rhedynnau yma hefyd, yn cynnwys bwtshars y gôg, botwm crys, blodyn menyn, blodyn trannau ac ambell glwt o flodau'r gwynt. Arwydd oedd y rhain, mwyaf tebyg, bod y goedlan ei hun yn hynafol, er bod y coed yn y rhan yma o'r goedlan yn weddol ifanc; cyll, bedw, helyg, criafol, drain duon a gwynion yn bennaf.




Mae hynny i'w ddisgwyl mewn coedlan lled-naturiol fel hon, lle bu torri a chlirio ac yna ail-dyfu ar adegau.

Wrth ddilyn y llwybr roedd pethau'n newid rownd bob cornel bron ac roedd yn bosib nabod caneuon a galwadau adar eraill megis siani lwyd, siff-saff, sguthan, cnocell fraith yn y pellter, a phan ddaethom at lecyn o goed ynn go fawr clywyd cip o rywbeth tebyg iawn i dingoch.

Roedd llwyni o goed cyll wedi eu bon-dorri ar un adeg ar gyfer ffyn a choed pŷs yn britho'r goedlan, ac wrth inni gyrraedd llecyn agored oedd yn cael ei dorri i greu gweirglodd, roedd rhes syth o gyll wedi eu bon-dorri yn ffin iddo. Olion hen wrych o gyll?

Roedd ail lecyn gweirglodd yn is i lawr, efo blodau llefrith hardd wrth y llwybr. Dyma gymryd golwg agosach ar y coesynnau oedd yn dal y blodau a chanfod un neu ddau o smotiau bychan bach oren ar rai o'r planhigion. Wyau'r iâr fach yr haf – y wen blaen oren – oedd y rhain.











Gwneud ein ffordd yn ôl at y fynedfa a dychwelyd at y ceir. I lawr a ni wedyn drwy bentra' Trefor ac i faes parcio'r traeth. Roedd amryw o wylanod penwaig a chefnddu lleiaf yn clwydo ar y traeth a phiod môr yn cystadlu. Telor helyg a deryn du yn y gwrych gerllaw a 'chân-fer-gyflym-gras-a-gorffen' y barfog neu lwydfron. Hefyd côr hedydd y graig. Mae'r deryn bach brown hwn yn dueddol o fod yn gyfyngedig i greigiau'r glannau ac mae ychydig yn fwy a llwytach ar ei gefn a'i ben na'r corhedydd y waun – sydd mor gyffredin ar y ffriddoedd.


Dyma gychwyn ar hyd Llwybr yr Arfordir i gyfeiriad godre'r Eifl. Roedd y gog yn canu ei deunod yn y pellter a barfog arall yn rhuthro drwy ei gân. Cyrraedd yr hen waith mango ar ymyl y clogwyn. Gwelwyd pâr o biod môr yn nythu reit ar ben y clogwyn gerllaw. Y ceiliog ar y top yn cadw golwg arnom ni a'r iâr yn swatio ar ei nyth ar silff oddi tano. Clustog Mair, glydlus arfor, trwch o gen gwyn ar y clogwyni ac roedd yn hyfryd gweld cymaint o'r blodyn bach glas, seren y gwanwyn, yn y borfa uwchben. Mae hwn yn perthyn yn agos i fwtshars y gog ac yn ein rhan ni o'r byd yn gyfyngedig i borfeydd neu rostir pennau clogwyni'r glannau.

Wrth fynd yn ein blaenau fe gawsom olwg dda ar fulfrain yn nythu ar silff ac, ychydig yn bellach ymlaen bilidowcars a mulfrain yn clwydo ar ben gwastad y golofn o graig elwir yn Ynys Bach, efo gwylanod penwaig yn nythu ar silffoedd oddi tanynt a dwy golomen y graig yn swatio rhag y gwynt.

Ymlaen â ni ymhellach ar hyd y llwybr a chael golygfa trawiadol o'r Ynys Fawr a'i chwiorydd o ben y clogwyn, a rhain hefyd hefo'u hadar. Wrth gyrraedd pendraw'r clogwyni tua'r Gorllwyn, fe gododd haid o jacdoeau a chlywyd cri brân goesgoch yn eu mysg cyn iddyn nhw ddiflannu o'r golwg rownd y gornel.

Cawsom dipyn o hanes chwarel y Gwaith Mawr cyn troi a dilyn y llwybr i fyny'r nant am Drefor. Cyrraedd cyrion y pentref a throi i'r chwith ar hyd hen lwybr tramffordd y chwarel ac yn ôl at y traeth a'r maes parcio. Cafwyd cip ar sgrech goed a hefyd cudyll coch ar ein ffordd. Diwrnod da iawn a chyfran ohonom yn ei hel hi yn ôl ein harfer ar ddiwedd taith am banad. Draw â ni i ganolfan arddio Tyddyn Sachau i'r perwyl hwnnw. Hyfryd iawn.

*Twm Elias*



# Hanes Melinoedd Llŷn

**Dros y misoedd diwethaf, comisiynwyd Glyn Roberts o Fryncroes i ymchwilio yn i hen felinoedd yr ardal ar ran AHNE Llŷn. Mae gan Glyn stôr o wybodaeth ddiddorol ac mae wedi bod yn ddyfal yn casglu popeth at ei gilydd, a pharhau i ymchwilio. Mae wedi darganfod llawer iawn am yr hen adeiladau diwydiannol hyn ac rydym yn dra diolchgar am yr hanesion a'r lluniau gwerth chweil mae wedi ei ddarganfod.**

**Bu Glyn yn rhannu ei wybodaeth mewn gwahanol sgyrsiau lleol – ac hefyd drwy gyfres o erthyglau yn mhapur bro Llanw Llŷn.**

**Os cewch chi gyfle i fynychu sgwrs gan Glyn – ewch da chi!**

**Dyma i chi bytiau difyr o hanes Melin Horon.**

## Melin Horon

Wedi ei lleoli yn Nanhoron, enw arall arni yw Felin Newydd Nanhoron. Mae'r adeilad presennol yn dyddio'n ôl i 1823 – ond mae'n debyg fod melin ar y safle ers y 18fed Ganrif. Ceir cofnod o felinydd o'r enw Thomas Jones yn cael ei gladdu yn Eglwys Llangian mor bell yn ôl â 1768. Yn ôl papurau stad Nanhoron yn 1777 – roedd Felin Newydd yn cynnwys "*mill, kiln and court*".

Richard Edwards, perchennog Stâd Nanhoron oedd yn gyfrifol am ei hail-adeiladu yn 1823 ac mae llechen gyda'r dyddiad i'w weld hyd heddiw uwchben y drws. Mae'r llythrennau yn cyfeirio at Richard a'i wraig Annabelle.

Mae cofnod yn 1841 yn nodi mai William Owen, yn enedigol o Lanbedrog oedd y melinydd yno – gyda phump o weithwyr ganddo.



*Melin Horon*









Owen Jones oedd y melinydd yno yn 1871. Ceir hanes Owen yn gweithio hefyd fel cartmon, yn cario nwyddau gyda cheffyl a throl. Arferai teulu Plas Nanhoron gael llwyth o lo oddi ar long yn Llanbedrog ac arferai Owen ei gario iddynt yn ôl i'r Plas. Bu farw Owen yn ystod yr 1890au a bu Ann ei wraig a Robert ei fab yn gweithio'r felin wedyn hyd at 1904.

Tua 1904, daeth meibion fferm Carneddol, Rhydyclafdy i Felin Horon. Roedd William a Henry Thomas yn fridwyr ceffylau o fri hefyd – a'u stalwyni wedi ennill llawer o wobrau mewn sioeau amaethyddol. Yn ogystal, roedd y brodyr yn mynd i weithio o amgylch ffermydd yr ardal gyda'u peiriant dyrnu (dywedir eu bod ym mysg y rhai cyntaf i gael dyrnwr mawr yn Llŷn.)

Dyma i chi syniad o brysurdeb y felin yng nghyfrifiad 1911:-

| | | |
|---|---|---|
| **William Thomas** | **46** | **Ffermwr a Melinydd** |
| **Henry Thomas** | **40** | **Ffermwr** |
| **Dorothy** | **37** | **Housekeeper** |
| **Griffith Jones** | **21** | **Gwas** |
| **Owen Ellis** | **21** | **Gwas** |
| **Evan Griffith** | **17** | **Gwas** |
| **H T Williams** | **20** | **Gwas** |
| **Owen Hughes** | **15** | **Gwas** |
| **John Griffith** | **68** | **Melinydd** |
| **Thomas Aincsow** | **69** | **Fitter** |

Mae manylion mewn adroddiad papur newydd yn 1916 hefyd yn dangos pa mor brysur oedd y felin – gyda William Thomas yn y llys yn gofyn am esgusodiad i un o'i weithiwyr i beidio â gorfod mynd i'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Bu farw William Thomas yn 1919 – gyda Henry (neu "Harri") yn parhau gyda'r busnes. Mae hanesion lleol yn dangos ei fod yn dipyn o gymeriad ac yn eithriadol o gryf.

Bu farw yntau yn 1947 yn 77 mlwydd oed.

(Diolch i'r holl berchnogion a phreswylwyr presennol am eu caniatâd a'u cydweithrediad ar y prosiect hwn).



# Newyddion o Blas Glyn y Weddw

Mae Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog yn un o orielau celf hynaf a mwyaf poblogaidd Cymru ac yn ddiweddar mae'r gerddi wedi derbyn sylw arbennig gan arddwr proffesiynol.

Adeiladwyd y Plas yn 1857 ar gyfer y Fonesig Elizabeth Jones Parry o Fadryn. Roedd yr ardd yn rhan bwysig o'r datblygiad a phlannwyd coed egsotig megis y secoia enfawr sydd i'w gweld hyd heddiw gerllaw y tŷ ac amrywiaeth o goed camelia.

Yn ystod cyfnod y Fonesig Parry, roedd tri garddwr yn gofalu am y gerddi ond yn ystod y blynyddoedd diweddar bu'r Plas, sydd yn cael ei redeg gan elusen annibynnol, yn dibynnu ar gymorth gwirfoddol er mwyn cadw trefn ar yr ardd.

Bu colled fawr yn dilyn marwolaeth y gwirfoddolwr Donald Ellis ddiwedd 2018, wedi iddo fod yn gofalu yn ddi-flino am y gerddi am bron i ugain mlynedd. Yn dilyn anhawster mewn denu gwirfoddolwyr newydd, ac amser y staff yn brin yn ystod misoedd prysur yr haf, roedd gwir angen rhoi sylw rheolaidd i'r ardd.

Yn ystod hydref 2019 dechreuodd James Williamson, garddwr hunan gyflogedig sydd yn byw ym Mhwllheli gyfrannu diwrnod o'i amser yn wythnosol i ofalu am y gerddi. Mae profiad ac ymroddiad James, sydd yn meddu ar radd mewn ecoleg wedi bod yn holl-bwysig yn y broses o lunio cynllun gofalu am yr ardd i'r dyfodol. Yn ystod y gaeaf mae wedi bod yn brysur yn tocio a thacluso y llwyni hydrangeas ac azaleas ac yn rhoi gwrtaith i'r gwelyau rhosod a chamelia.

Mae storfa gompost bwrpasol wedi ei datblygu ac mae gan James hefyd gynlluniau i greu meithrinfa goed ar gyfer eu plannu yn y goedwig.

Bydd James yn chwarae rhan ganolog mewn cynllun peilot cyffrous sydd yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn canolbwyntio ar amgylchedd y Plas ac yn cael ei arwain gan yr artist Jacques Nimki gyda cymorth gan wirfoddolwyr.

Yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn bydd y rhan o'r ardd sydd uwchlaw y theatr awyr agored yn cael ei datblygu yn 'ardd fforest'. Bydd coed ffrwythau amrywiol yn cael eu plannu yma ymysg coed cynhenid megis criafol a bedw, a bydd perlysiau yn cael eu tyfu ar gyfer eu defnyddio yn y caffi.

Yn sicr, bydd yr ardd yn werth ei gweld yn ystod misoedd yr haf a'r gwanwyn pan fydd yr holl blanhigion yn eu blodau.

Os oes gennych ddiddordeb gwirfoddoli fel rhan o'r cynlluniau cyffrous yma yn y Plas, ffoniwch 01758 740 763 neu e-bostiwch **enquiry@oriel.org.uk**










Newyddion gan Ymddiriedolaeth Enlli – (www.enlli.org)

# CROESO i Wardeiniaid Newydd Enlli!

Penodwyd wardeiniaid newydd ym mis Awst 2019, sef Mari Huws ac Emyr Owen. Bydd llawer yn cofio Mari pan ddaeth draw fel Swyddog Ymwelwyr yn ystod tymor 2016 gyda'r Warden bryd hynny, Siân. Mae Mari wedi bod yn dod i Enlli ers yr oedd yn blentyn ac yn adnabod yr ynys yn dda. Mae Emyr hefyd wedi bod yn dod i'r ynys ers llawer blwyddyn gyda'i deulu, ac yn y blynyddoedd diwethaf mae ei dad Aneurin wedi bod yn dod draw fel Caplan. Mae'r ddau yn deall Enlli, yn egnïol ac yn frwdfrydig, ac yn barod i dderbyn yr her o ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i gynnal gwaith yr Ymddiriedolaeth.


Dymunwn bopeth da iddyn nhw ac edrychwn ymlaen at eu cefnogi yn eu swyddi a'u cyfle i fyw fel rhan o gymuned Enlli.




# Cystadleuaeth Tynnu Llun!

Fyddwch chi'n ymweld â dyffryn hudolus Nant Gwrtheyrn dros y misoedd nesaf? Am gyfle i ennill taleb gwerth £25 tynnwch lun o, neu yn, Nant Gwrtheyrn o unrhyw ongl a'i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Gallwch dagio Nant Gwrtheyrn yn eich llun ar Instagram, Facebook neu Trydar gan ddefnyddio #NantGwrtheyrn. Os nad ydych ar y cyfryngau cymdeithasol anfonwch eich llun at **marchnata@nantgwrtheyrn.org**

Bydd yr enillydd yn cael ei ddewis diwedd mis Hydref.



# Capel Newydd Nanhoron





Un o'n trysorau pennaf ni yma, "ym mhellafoedd hen wlad Llŷn" fel y dywedodd Cynan, ydi'r adeilad syml hirsgwar efo'i lawr pridd a elwir yn Gapel Newydd, Nanhoron. Er gwaethaf yr enw Capel Newydd, y mae'n hen adeilad, yn dyddio'n ôl i 1769, a'r enghraifft hynaf sy'n dal i fodoli, mae'n debyg, o gapel Ymneilltuol yng ngogledd Cymru. Oherwydd hynny, mae wedi ei restru gan Cadw yn adeilad Gradd 1, sef y categori ar gyfer yr adeiladau prinnaf a mwyaf arbennig.

Roedd traddodiad ar un adeg mai Mrs Edwards, gweddw Plas Nanhoron, oedd wedi rhoi y tir ar gyfer y capel ond mae'r gweithredoedd yn dangos yn eglur nad felly y bu. Pan benderfynodd yr Ymneilltuwyr – neu'r Annibynwyr a rhoi enw arall arnynt – a arferai gyfarfod i addoli yn ffermdy Lôn Dywyll (Llwyn Onn), Llangïan eu bod am godi capel, dewiswyd darn o dir fferm fechan Gwag-y-noe yn ardal Nanhoron ar gyfer hynny. Roedd un o'r aelodau, Lewis Williams, Gwag-y-noe, yn berchen ar ei fferm ei hun ac ym mis Gorffennaf 1769 gwerthodd un o'i gaeau er mwyn codi'r capel arno. Roedd yr adeilad yn barod erbyn y 6ed o Hydref y flwyddyn honno pan aeth y Gweinidog a thri o'r aelodau gerbron yr Ustusiaid yng Nghaernarfon i'w drwyddedu fel tŷ cwrdd ar gyfer yr Ymneilltuwyr.

Yn ddiweddarach y daeth Mrs Catherine Edwards, gweddw Plas Nanhoron, yn un o'r aelodau a bu'n gefnogol iawn i'r achos. Yn ôl traddodiad roedd hi wedi mynd i Southampton ym mis Gorffennaf 1780 i gyfarfod ei gŵr, Capten Timothy Edwards, oddi ar ei long ond cafodd y newydd trist ei fod wedi marw a'i gladdu yn y môr. Dywedir iddi gael gofal ac ymgeledd gan weinidog yr Ymneilltuwyr yno a'i deulu ac y bu iddi o'r herwydd, ar ôl dychwelyd adref i Nanhoron, ymaelodi yn y Capel Newydd.

Yn dilyn codi Capel Horeb gan yr Annibynwyr ym Mynytho yn 1872, gan fod mwy o boblogaeth yno, lleihau wnaeth nifer y gynulleidfa yn y Capel Newydd. Erbyn 1953 roedd ei gyflwr yn dirywio ac o dan arweiniad Gwilym T. Jones, Clerc Cyngor Sir Gaernarfon ac Ysgrifennydd Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon ar y pryd, cafwyd ymgyrch i godi arian i'w adfer. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Capel Newydd a llwyddwyd i gael amrywiol grantiau. Trosglwyddwyd perchnogaeth a gofal yr adeilad a'r fynwent gan Gapel Horeb i'r Ymddiriedolaeth ym mis Medi 1957 a chafodd y Capel ei agor yn swyddogol ar ei newydd wedd ym mis Gorffennaf y flwyddyn wedyn. Yn anffodus roedd Gwilym T. Jones wedi marw yn 1956, cyn gweld diwedd y gwaith.

Mae'r Ymddiriedolaeth a sefydlwyd bryd hynny yn dal i fynd ac fe'i cofrestrwyd yn elusen yn y flwyddyn 2000. Erbyn hyn y mae ymgyrch ar droed i ymgeleddu'r hen gapel unwaith eto er mwyn ei ddiogelu i'r dyfodol. I'r perwyl hwnnw bydd amrywiol weithgareddau yn cael eu trefnu er mwyn codi arian. Cadwch olwg yn Llanw Llŷn a'r Ffynnon a'r wasg leol yn gyffredinol am fanylion maes o law. Pwrpas y nodyn hwn yw tynnu eich sylw at y gwaith sydd o'n blaenau ac apelio ar unrhyw un sy'n teimlo y gallant helpu mewn unrhyw ffordd i gysylltu â swyddogion yr Ymddiriedolaeth ar y cyfeiriad e-bost hwn:
**capelnewyddnanhoron@outlook.com**

John Dilwyn Williams, Cadeirydd
Meinir Pierce Jones, Ysgrifennydd
R. H. Wyn Williams, Trysorydd